## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE EXTRAORDINARY MEETING OF THE COUNCIL**

**SUBJECT:** **EXTRAORDINARY MEETING OF THE COUNCIL - DYDD IAU, 4 TACHWEDD 2021 DYDD IAU, 4 TACHWEDD 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

| | |
|---|---|
| Councillors | M. Day (Deputy Chair) |
| | P. Baldwin |
| | D. Bevan |
| | J. Collins |
| | M. Cook |
| | N. Daniels |
| | D. Davies |
| | G. A. Davies |
| | G. L. Davies |
| | P. Edwards |
| | L. Elias |
| | D. Hancock |
| | K. Hayden |
| | S. Healy |
| | J. Hill |
| | W. Hodgins |
| | M. Holland |
| | J. Mason |
| | C. Meredith |
| | J. Millard |
| | M. Moore |
| | J. C. Morgan |
| | J. P. Morgan |
| | G. Paulsen |
| | K. Pritchard |
| | K. Rowson |
| | T. Smith |
| | B. Summers |
| | B. Thomas |

G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Prif Swyddog Adnoddau |
| Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid |
| Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol |
| Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd |
| Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata |
| Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd |
| Swyddog Polisi |
| HEFYD: |
| Mr. Antony Metcalfe – Lleng Brydeinig Frenhinol – Rheolwr Ardal Cymru |
| Ms. Lisa Rawlings – Swyddog Lluoedd Arfog Rhanbarthol |
| Sylwedyddion – Cynrychiolwyr o Ganghennau'r Lleng Brydeinig Frenhinol o fewn y Fwrdeistref Sirol |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>**Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb gan:**<br><br>Cynghorwyr M. Cross, J. Holt, H. McCarthy, L. Parsons, T. Sharrem a chynrychiolwyr Cangen Glynebwy y Lleng Brydeinig Frenhinol. | |

| | | |
|---|---|---|
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **RHYDDID ANRHYDEDDUS Y FWRDEISTREF SIROL – Y LLENG BRYDEINIG FRENHINOL**<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd drwy esbonio y galwyd Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ar gyfer yr unig ddiben, y rhoddir hysbysiad ohono yn awr, o ystyried ac os credir yn addas basio penderfyniad yn y telerau dilynol, ac mae'n rhaid i benderfyniad o'r fath yn unol ag Adran 249 (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gael ei basio gan ddim llai na ddau-draean yr Aelodau yn pleidleisio ar hynny.<br><br>Felly aeth y Cadeirydd ymlaen drwy gynnig ar y Cynnig dilynol:<br><br>"Yn unol ag Adran 249(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent drwy hyn yn cyflwyno Rhyddid Anrhydeddus Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i'r Lleng Brydeinig Frenhinol i nodi Canmlwyddiant y Lleng Brydeinig Frenhinol yn 2021 a gan gydnabod gwaith elusennol ymroddedig canghennau lleol (Abertyleri, Beaufort, Blaenau, Brynmawr, Cwm, Glynebwy, Rasa a Thredegar) ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n cefnogi aelodau presennol a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd. Hefyd, gan gydnabod yr ystod eang o bobl yn y Fwrdeistref Sirol sy'n codi arian bob blwyddyn i gefnogi'r Lleng Brydeinig Frenhinol a'r Gymuned Lluoedd Arfog.<br><br>Bod y Cyngor yn cofleidio'r fraint o dderbyn y dywededig Lleng Brydeinig Frenhinol fel Rhyddfreinwyr Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent".<br><br>Eiliwyd y Cynnig hwn.<br><br>Ar y pwynt hwn, dywedodd y Cynghorydd Brian Thomas, Hyrwyddwyr Lluoedd Arfog y Cyngor mai Rhyddid y Fwrdeistref yw'r anrhydedd fwyaf y gallai Cyngor Blaenau Gwent ei chyflwyno, a'i fod wrth ei fodd i gymryd y cyfle hwn ar ganmlwyddiant y Lleng Brydeinig Frenhinol i gydnabod gwaith ymroddedig nifer fawr o wirfoddolwyr drwy ganghennau lleol ym Mlaenau Gwent dros lawer o flynyddoedd. Mae hefyd yn adlewyrchu'r gefnogaeth gymunedol gref ym Mlaenau Gwent ar gyfer y lluoedd arfog. Mae llawer o ddynion a menywod ym Mlaenau Gwent wedi | |

gwasanaethu'n falch yn y lluoedd arfog ac mae'r anrhydedd hon yn cydnabod gwaith rhagorol y Lleng Brydeinig Frenhinol dros flynyddoedd lawer i gefnogi'r aelodau presennol a chyn aelodau o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd.

Yn anffodus, er na fedrid cyflwyno'r anrhydedd wyneb yn wyneb heddiw, gwneir trefniadau i'w chyflwyno yn nes ymlaen. Daeth yr Hyrwyddwr Lluoedd Arfog i ben drwy fynegi eto ei werthfawrogiad i'r llu o wirfoddolwyr ar draws Blaenau Gwent a gyfrannodd at waith pwysig y Lleng Brydeinig Frenhinol a dywedodd ei fod yn falch i eilio'r Cynnig i ddyfarnu Rhyddid y Fwrdeistref i'r Lleng Brydeinig Frenhinol.

Felly PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Lleng Brydeinig Frenhinol yn cael eu gwneud yn Rhyddfreinwyr Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Ar y pwynt hwn, estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr. Antony Metcalfe, Rheolwr Ardal Cymru y Lleng Brydeinig Frenhinol, Ms. Lisa Rawlings, Swyddog Rhanbarthol y Lluoedd Arfog a chynrycholwyr canghennau'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn y Fwrdeistref Sirol.

Wedyn gwahoddwyd Mr Metcalfe i ymateb:

Dywedodd Mr. Metcalfe ei fod yn bleser mawr derbyn Rhyddid Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar ran y Lleng Brydeinig Frenhinol.

Manteisiodd yn gyntaf ar y cyfle i fynegi ei werthfawrogiad i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Malcolm Day a'r Hyrwyddwr Lluoedd Arfog, y Cynghorydd Brian Thomas am eu sylwadau caredig iawn ac i holl Aelodau'r Cyngor am eu cefnogaeth unfrydol i gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r Lleng Brydeinig Frenhinol a dywedodd ei bod yn fraint ac anrhydedd bod yn bresennol.

Aeth Mr. Metcalfe yn ei flaen drwy ddweud y cyflwynwyd Rhyddid y Fwrdeistref i nodi Canmlwyddiant y Lleng Brydeinig Frenhinol yn 2021 ac i gydnabod y gwaith elusennol ymroddedig a wneir gan ganghennau lleol (fel Abertyleri, Beaufort, Blaenau, Brynmawr, Cwm, Glynebwy a Thredegar i enwi ond rhai) ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n cefnogi aelodau presennol a chyn aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd. Roedd hyn hefyd i gydnabod yr ystod eang o bobl yn y Fwrdeistref Sirol sy'n codi arian bob blwyddyn i

gefnogi gwaith hanfodol y Lleng Brydeinig Frenhinol yn cefnogi'r gymuned Lluoedd Arfog.

Mae hon yn flwyddyn arbennig iawn i'r Lleng, gan ei bod yn nodi canmlwyddiant ei sefydlu ar 15 Mai 1921. Ffurfiwyd y Lleng yn dilyn y rhyfel fwyaf dinistriol a welodd y byd erioed ac roedd yn dod â phedwar sefydliad cyn aelodau'r lluoedd arfog dan un ymbarél. Cododd yr apêl pabi cyntaf ym mis Tachwedd 1921 £106,000 (£5.3 miliwn heddiw) ac ers hynny bu'r apêl yn rhan allweddol o'r calendr Cofio. Eleni byddai 40,000 o wirfoddolwyr yn dosbarthu miliynau o babi ar draws y Deyrnas Unedig a thramor, gyda'r nod o godi £45 miliwn i gefnogi gwaith hanfodol y Lleng.

Mae'r ffaith fod y Lleng yn dal i fodoli 100 mlynedd yn ddiweddarach fel sefydliad elusennol yn dystiolaeth o'i gallu i addasu a newid. Dros y 100 mlynedd diwethaf mae'r Lleng wedi cefnogi'r tair prif nod elusennol, sef llesiant, ymgyrchu a chofio.

Caiff y Lleng ei chydnabod am y digwyddiadau Cofio a'r apêl pabi blynyddol ond hefyd tu ôl i'r llenni hi yw'r darparydd mwyaf o gefnogaeth llesiant i gymuned y lluoedd arfog. Yn genedlaethol, mae'r Lleng yn ymateb i dros 100,000 o geisiadau bob blwyddyn ac yn gwario £1 miliwn yr wythnos ar ofal, anghenion uniongyrchol a grantiau eraill o'r fath gyda phob un yn arwain at ganlyniad newid bywyd ar gyfer yr unigolion dan sylw a'u teuluoedd.

Mae dwy flynedd olaf pandemig Covid-19 wedi effeithio ar bawb mewn llawer o ffyrdd ac ar y pwynt hwn mynegodd Mr. Metcalfe ei ddymuniadau gorau a'i gydymdeimlad gyda'r rhai a gollodd anwyliaid.

Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi dangos y gorau ym mhawb, cymunedau yn dod at ei gilydd i gynorthwyo'r rhai sydd mewn anawsterau, yn ynysig ac mewn angen, elusennau, grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn camu lan i gefnogi'r gwasanaethau iechyd a llwyddiant enfawr y rhaglen frechu.

Roedd y genedl wedi gweld y gymuned Lluoedd Arfog yn cymryd llawer o gyfrifoldebau ychwanegol, gan gefnogi ymateb y genedl i Covid-19, adeiladu ysbytai maes, rhedeg canolfannau brechu, cefnogi criwiau ambiwlans a chynnal llif PPE yn ychydig enghreifftiau. Roedd hefyd weithgareddau yn mynd rhagddynt ar draws y byd a lluoedd arfog yn gadael Kabul yr haf hwn yn Op PITTING. Mae'r gymuned Lluoedd Arfog yno i bawb a byddai'r

Lleng bob amser yno iddynt.

Wrth i'r Lleng ddathlu ei chanmlwyddiant, mae'n gwybod yn iawn na chafodd ei gwaith ei gyflawni. Mae'r Lleng yn sefyll yn barod i barhau i ddal llywodraethau i gyfrif, i gamu mewn a chefnogi lle mae angen mewn unrhyw ran o'r byd a byddai'n parhau i gynnal digwyddiadau Cofio, fel ffynhonnell o fudd cymdeithasol sy'n berthnasol i bob cymuned. Mae'r Lleng yn sefyll yn barod ar gyfer yr heriau wrth iddi symud ymlaen i'w chan mlynedd nesaf.

Daeth Mr Metcalfe i ben drwy fynegi ei werthfawrogiad unwaith eto am yr anrhydedd wych hon.

Yna gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau.

Dywedodd Aelod ei fod bob amser wedi cefnogi ac y byddai bob amser yn parhau i gefnogi'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac yn llwyr gefnogi'r penderfyniad i gyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref i'r sefydliad. Fodd bynnag, mynegodd ei farn fod angen i'r Cyngor yn y dyfodol roi mwy o gymorth i'r Lleng Brydeinig Frenhinol drwy gymryd cyfrifoldeb am gau ffyrdd (yr arferid ei wneud gan Heddlu Gwent) ar gyfer y gorymdeithiau Cofio. Teimlai na ddylai'r cyfrifoldeb hwn fod yn un o drefnwyr digwyddiadau sef y Cynghorau Tref/Cymuned i'w cydlynu a'u rheoli.

Dechreuodd Arweinydd y Cyngor drwy rannu'r croeso a roddodd ei gydweithwyr i'r Lleng Brydeinig Frenhinol a llongyfarch y Lleng ar ei chanmlwyddiant. Adleisiodd sylwadau'r Aelodau hynny a dalodd deyrnged i bawb oedd yn gysylltiedig a'r gwaith ymroddedig ar draws Cymru ac mewn canghennau lleol gan y Lleng Brydeinig Frenhinol a thalodd deyrnged yn neilltuol i waith rhagorol canghennau lleol ym Mlaenau Gwent. Mynegodd ei werthfawrogiad i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith a chefnogaeth diflino bob blwyddyn i'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Mae gan Flaenau Gwent gysylltiad balch iawn gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac mae cyflwyno Rhyddid y Fwrdeistref yn deyrnged addas a phriodol i sefydliad mor hirsefydlog, balch ac uchel ei barch.

Yng nghyswllt blynyddoedd y dyfodol, cafodd gwaith eisoes ei wneud gyda swyddogion ac yn wir y sefydliadau sydd fel arfer yn trefnu gorymdeithiau Cofio yn flynyddol i sicrhau parhad y gorymdeithiau a'r seremonïau hyn ymhell i'r dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| | Daeth y Cadeirydd i ben drwy ddweud fod y Lleng Brydeinig Frenhinol yn gwneud gwaith gwych ac yn rhoi cefnogaeth anhygoel i aelodau presennol a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd ac y byddai'r Cyngor yn gwneud popeth fedrai i barhau i gefnogi'r Lleng am flynyddoedd lawer i ddod.<br><br>Ar hynny, diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu a datganodd fod y cyfarfod ar ben. | |